# Polisi gwrth fwlio

## Diffiniad o fwlio

yn fwriadol niweidiol(gan gynnwys ymddygiad ymosodol

yn digwydd yn aml dros gyfnod o amser (gan gydnabod y gall un digwyddiad yn unig achosi trawma i ddisgybl a gwneud iddo boeni y gallai ddigwydd eto yn y dyfodol);

yn ei gwneud yn anodd i ddioddefwyr amddiffyn eu hunain yn ei erbyn

*“Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy’n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy’n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai’n gorfforol neu’n emosiynol.”*

**Hawliau, parch, cydraddoldeb:Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir** 2019

**Mathau o fwlio**

Gall bwlio fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

corfforol – cicio, baglu neu wthio rhywun, anafu rhywun, difrodi ei eiddo neu wneud ystumiau bygythiol;

geiriol – gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu frawychu;

emosiynol – ymddygiad a fwriedir i ynysu, niweidio neu fychanu rhywun; gweithredoedd llechwraidd a wnaed tu ol I gefn rhywun, neu ledaenu suon sy'n ceisio niweidio perthnasoedd, tynnu ffrindiau, ynysu neu fychanu rhywun neu gael rhywun i drafferth yn fwriadol;

rhywiol – cyffwrdd digroeso, bygythiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, yr hyn a elwir yn ‘bornograffi dial’ ac unrhyw gamddefnydd o luniau personol a chignoeth o’r dysgwr sy’n cael ei dargedu;

ar-lein (seiber) – defnyddio unrhyw fath o ddulliau technolegol, ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apiau i fwlio drwy negeseuon testun, negeseuon, delweddau neu fideo;
cysylltiedig ârhagfarn – bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn.

Bwliosy'n gysylltiedig ârhagfarn oedran, anabledd,ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, hyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth yn gallu ymestyn hyd; targedu statws cymdeithasol teulu, cefndir,ymddangosiad, manteisio ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY) person neu salwch hirdymor.

## Trosedd casineb

Trosedd ymae'rdioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried ei bod yn cael ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig person; crefydd neu grefydd canfyddedig person; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig person; anabledd neu anabledd canfyddedig person ac unrhyw drosedd sy’n cael ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy’n drawsryweddol neu yr ystyrir iddo fod yn drawsryweddol.

## Aflonyddu

Mae aflonyddu yn sylw diangen sy'n sarhaus neu'n bygwth neu fychanu person. Gall hyn gynnwys defnyddio geiriau llafar neu ysgrifenedig neu gam-drin.

## Diffiniad o ddigwyddiad casineb

Digwyddiad casineb yw unrhyw ddigwyddiad nad yw’n drosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried ei fod yn cael ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig person; crefydd neu grefydd canfyddedig person; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig person; anabledd neu anabledd canfyddedig person; neu ar sail bod yn drawsryweddol neu yr ystyrir i berson fod yn drawsryweddol.

Gall unrhyw un ddioddef digwyddiad casineb. Er enghraifft, efallai eich bod wedi cael eich targedu oherwydd bod rhywun yn meddwl eich bod yn hoyw er nad ydych, neu oherwydd bod gennych blentyn anabl.

Ni fydd pob digwyddiad casineb yn gyfystyr â throseddau, ond mae'r un mor bwysig bod y rhain yn cael eu hadrodd a'u cofnodi.

Gall digwyddiadau casineb gynnwys:

Cam-drin geiriol, galw enwau, jôcs sarhaus

Aflonyddu a sarhadBwlio neu fygwth

Post casineb, negeseuon ffôn neu destun difrïol

Cwynion maleisus

Cam-drin ar-lein

# Polisi gwrth fwlio

**Cyflwyniad**

Mae'rysgol hon yn credu bodymddygiadbwlïaidd yn gwbl annerbyniol ac na ddylid ei oddef.

Mae pob aelod ogymuned yrysgolynrhannu cyfrifoldeb ar y cyd dros fynd i'r afael â bwlio pe bai'n digwydd ac wrth gydweithio i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ysgol yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd gyfreithiol i atal a mynd i'r afael â phob math o ymddygiad bwlio.


Credwn, yn Nhreganna fod gan bob person yr hawl i fod yn nhw eu hunain, i gael eu cynnwys a'u dysgu mewn amgylchedd diogel a hapus. Mae pawb yn ein hysgol yn gyfartal ac yn trin ei gilydd gyda pharch a charedigrwydd. Mae ein hysgol yn credu bod unrhyw fath o drosedd casineb, digwyddiad casineb neu aflonyddu yn gwbl annerbyniol ac na fydd yn cael ei oddef.

Lluniwyd y polisi hwn gyda chyfranogiad cymuned yr ysgol gyfan ac mae'n ategu'r Datganiad o Werthoedd a Rennir sy'n sylfaen I'n gwaith yn Nhreganna.

## Ein Gweledigaeth

Mae'r ffyniant disgyblion a'u lles wrth wraidd popeth a wnawn yma yn Nhreganna. Cydweithiwn gyda theulu eang ein cymuned i gynnig profiadau ysbrydoledig Magwn blant chwilfrydig fydd yn hyderus i ymgymryd a chyfleoedd unigryw a'r dyfodol llwyddiannus sy'n perthyn o bob plentyn. Mae ein cymunedau dysgu yn fodd ymarferol o sicrhau teimlad o berthyn, gofal a natur teuluol cyson o "Ysgol fechan yn y ddinas fawr". • Mynnwn gydraddoldeb, cyfiawnder a pharch tuag at eraill. • Byddwn yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i fanteisio ar gyfoeth ein cymdeithas, rhieni a mudiadau aml-ethnig. • Hyrwyddwn ac ymfalchïwn yn ein cred Cenedl heb Iaith, heb hanes, heb galon. • Buddsoddwn yn gryf ac yn hyderus yn ein disgyblion fel partneriaid. • Creu dinasyddion cefnogol a hyddysg trwy ddarparu addysg sy'n cydnabod materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.


• Parhawn i gynnig cwricwlwm sy’n sicrhau cyfleodd perfformio cyson yn y Celfyddydau Creadigol. Mae’r cyfoeth yma yn rhan hanfodol o hyder, datblygiad a hunaniaeth ein disgyblion.
• Darparwn amrywiaeth o wahanol glybiau, cyfleoedd i weithio gyda mudiadau allanol.
Cydnabyddwn bwysicrwydd elfen gystadleuol o fewn fframwaith cyfle cyfartal i bob un.
• Ceiswn gyfleoedd amrywiol i'n disgyblion arddangos eu medrau ac annog y disgyblion i fod yn greadigol ddigidol.
• Defnyddio cilfan a chefnogaeth y Cwtsh er mwyn sicrhau bod ein disgyblion a rhieni yn barod ar gyfer taith ddysgu.
Yma yn Nhreganna ymrwymwn i ddathlu ein diwylliant, i ymfalchïo yn ein hunaniaeth, i gyfoethogi ein dealltwriaeth am ein hanes a pharatoi'r dysgwyr at eu dyfodol. Ym 1987 taniwyd cannwyll fach yn Nhreganna ac erbyn hyn wedi tyfu’n goelcerth iach sy’n adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiadau’r plant.



**CYDRADDOLDEB**



**GWEITHGYNHYRCHU CYDRADDOLDEB**



**CYFIAWNDER**

## Amcanion

Mae'r polisi hwn mewn partneriaeth â'r Polisi Gwrth Digwyddiadau Casineb ac Aflonyddu yn hanfodol i gefnogi ein hethos ysgol gyfan, sef sicrhau bod plant yn gallu dysgu heb ofn, eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn hapus heb sarhad, aflonyddu, gormesu a cham-drin.

Fe'i cynlluniwyd i atal ymddygiad bwlio lle bynnag y bo modd, i ymateb yn gyson yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt pe bai'n digwydd ac i roi cymorth i'r rhai sy'n gysylltiedig fel y bo'n briodol.

Anelwn

leihau amlder yr holl achosion o fwlio, gan gynnwys disgyblion â nodweddion a ddiogelir;

gynyddu'r tebygolrwydd y datgelir digwyddiadau i oedolyn cyfrifol;

ymyrryd yn effeithiol pan fydd digwyddiadau'n digwydd;

wella presenoldeb disgyblion;

gynnig strategaethau i ddisgyblion ymateb i ymddygiad bwlio;

atgyfnerthu'r ethos gwrth-fwlio gyda HMS ysgol gyfan, cyfarfodydd staff, gwasanaethau ayybi;

sicrhau bod pob rhanddeiliad yn deall beth yw bwlio a sut i'w adnabod;

gwrando ar farn disgyblion a gweithredu arno;

darparu cymorth gan gymheiriaid ac atgyfnerthu'r neges gwrth-fwlio drwy Iechyd a Lles/ /Amser Cylch

Sicrhau bod Treganna yn lle diogel a phleserus.

## Arwyddion Posibl o Fwlio

Gall y rhai sy'n cael eu bwlio ddangos newidiadau mewn ymddygiad fel mynd yn swil a nerfus, ffugio salwch neu lynu wrth oedolion. Gall eu gwaith ysgol ddirywio. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio neu'n ceisio osgoi dod i'r ysgol.

## Bydd Treganna yn :

Penodi'r Pennaeth a'r Dirprwy yn arweinwyr gwrth-fwlio,, digwyddiadau casineb.

Cyfrifoldebau Allweddol:

Creu polisi gwrth fwlio , digwyddiad casineb aflonyddu;

adolygu a datblygu parhaus; gweithredu polisi a monitro ei effeithiolrwydd

adrodd, cofnodi, monitro a gwerthuso; sicrhau bod staff/disgyblion/rhieni newydd yn cael eu cyflwyno i'r polisi.

Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant briodol

Codi ymwybyddiaeth am ymddygiad bwlio -wythnos gwrth-fwlio ,sesiynau amser cylch / cynnwys y cwricwlwm

Bydd llawer o gyfleoedd ar draws Cwricwlwm Cymru i ymgorffori ymddygiad a pharch cadarnhaol. Ni ddylid cyfyngu cyfleoedd i'r Maes Iechyd a Lles o Brofiad Dysgu ond dylid eu hymestyn ar draws holl feysydd y cwricwlwm a thu hwnt.

Defnyddio ymyriadau megis ELSA fel strategaeth ysgol gyfan i fynd i'r afael ag ymddygiad bwlio.

Defnyddio cyfleoedd i fynd i'r afael â bwlio drwy, arddangosfeydd, posteri, blwch bwlio, gwasanaethau, sesiynau cyfiawnder adferol, cefnogaeth gan gymheiriaid a'r Cyngor Ysgol.

Sicrhau bod y wybodaeth yn y polisi hwn ar gael i bawb yng nghymuned ein hysgol – drwy argaeledd ar y wefan / llawlyfrau staff / prosbectws ysgol

Cynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol wrth ddylunio /gweithredu'r polisi-

defnyddio cyngor yr ysgol i ddatblygu "fersiwn sy'n addas i blant"

Bydd dulliau atal bwlio a digwyddiadau casineb yn cynnwys:

Datblygu ethos cadarnhaol sy'n cynnwys gwybod bod bwlio yn annerbyniol.

Disgwyl ymddygiad cadarnhaol sy'n helpu ac yn cefnogi dysgu a datblygu ... gweler Cod Ymddygiad a Pholisi Perthyn

Hyrwyddo cydweithredu a disgwyl ymddygiad sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Annog y gwylwyr hynny sy'n dyst i fwlio i weithredu'n gadarnhaol drwy rybuddio staff a rhoi pwysau ar y cyd i atal cyflawnwyr.

Gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau

Cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol, hunan-barch a gwytnwch mewn gwasanaethau ysgol, gwaith grŵp, Amser Cylch, y rhaglen Ysgolion Iach, datblygu sgiliau, addysgu strategaethau ymdopi personol disgyblion, cynnwys y Cyngor Ysgol, cynlluniau Cyfeillion, mentora cyfoedion, cyfryngu a Dulliau Adferol.

Hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach

Hyfforddi'r holl staff i nodi bwlio ar Edukey a dilyn polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar fwlio.

Mynd ati i greu "mannau diogel" ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Lle bo'n briodol, defnyddio cyfryngwyr hyfforddedig (ee. Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu) wrth gyflawni penderfyniad addas.

Adolygu a diweddaru polisi'n barhaus yn unol ag arfer gorau a chanfyddiadau.

Cydweithio ag asiantaethau allanol perthnasol lle bo hynny'n briodol.

Cynnwys ein SHCY (Swyddog Heddlu Cymuned Ysgolion) dynodedig wrth gyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

Dangos parch at eraill a herio ac addysgu am iaith amhriodol sy'n; cyfleu rhagfarn ar sail hil, homoffobig, rhyw, crefydd, anabledd neu byddai'n cael ei hystyried yn dramgwyddus neu'n ddifrïol gan unrhyw grwpiau gwarchodedig

Nodi canllawiau clir sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cwyno am fwlio?

## Os bydd bwlio neu ddigwyddiad casineb yn digwydd

Bydd person dynodedig yn monitro a choladu gwybodaeth am ddioddefwyr bwlio a chyflawnwyr ;

Ymchwilio i'r digwyddiad / sefydlu ffeithiau trwy siarad yn annibynnol â phawb dan sylw.

Defnyddio technegau ymyrraeth adferol priodol i reoli anawsterau rhwng cyflawnwyr a thargedau; annog cymodi lle bo hyn yn bosibl/ymarferol.

Lle mae ymddygiad bwlio wedi'i sefydlu, gweithredu sancsiynau cytûn yn gyson ac yn deg yn ôl yr angen i atal digwyddiadau pellach.

Sancsiynau bwlio

Mae pawb yn gwneud camgymeriadau wrth ddysgu. Wrth ddysgu sgiliau cymdeithasol bydd disgyblion weithiau'n defnyddio termau anaddas neu yn gwneud neu ddweud rhywbeth fydd yn brifo eraill. Mae hyrwyddo agweddau ac ymddygiad cynhwysol a charedig yn rhan naturiol o fywyd ac addysg y dosbarth.

Gweithredu Camau Sancsiynau Bwlio

Mae gweithrediad effeithiol y sancsiynau a'r dull adferol yn dibynnu'n fawr ar broffesiynoldeb staff. Rhaid barnu os bydd disgybl wedi bwriadu niwed cyn ystyried oedran, dealltwriaeth ac amgylchiadau cyn gweithredu

Cam1

Weithiau, fe fydd staff yn tybio mai brifo oedd bwriad disgybl wrth ddefnyddio iaith annerbyniol neu gyfeirio'n angharedig at wahaniaeth. Yn yr achos cyntaf byddwn yn ymyrryd i egluro wrth y disgybl nad ydym yn derbyn ymddygiad anghynhwysol na geirfa sy'n perthyn.

Cam2

Os bydd yr ymddygiad / geirfa yn parhau, fe fydd staff yn ymhelaethu ac yn pwysleisio pam fod hyn yn annerbyniol ( yn ddibynnol ar oedran a dealltwriaeth disgybl) Ystyriwn hefyd, dynnu breintiau/amser rhydd. Atal mynediad i rannau o'r ysgol.

Cam3

Os bydd yr ymddygiad / geirfa yn parhau, byddwn yn gwahodd rhieni i'r ysgol er mwyn trafod gwella ymddygiad ac yn egluro y byddwn yn gorfod ystyried eithrio os bydd yr ymddygiad/ geirfa yn parhau

Byddwn yn cadw cofnodion cywir, ffeithiol o'r holl ddigwyddiadau a adroddir ac ymateb yr ysgol ar Edukey. Bydd digwyddiadau dilynol bob amser ar ôl iddynt gael eu trin ac adolygu canlyniadau i sicrhau bod ymddygiad bwlio wedi dod i ben.

Darparwn hefyd, gefnogaeth barhaus i'r rhai sy'n gysylltiedig lle bo angen;

Bydd yr ysgol yn cynnig yn ceisio atgyweirio niwed gan ddefnyddio egwyddorion dull adferol.

Ystyriaethau diogelu

Os oes neu y gallai fod risg sylweddol o niwed, siaradwch ag arweinydd diogelu dynodedig eich ysgol (DSL) Rhys Harries neu'r Dirprwy Gareth Evans

O dan Adran 89, (5) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 mae gan yr ysgol bwerau i ddisgyblu am ddigwyddiadau sy'n digwydd oddi ar y safle.

Mae Deddf Addysg 2011 yn rhoi pwerau i ysgolion chwilio ac atafaelu dyfais ond a fyddech cystal â rhoi sylw i brotocolau ar drin tystiolaeth neu ffonau

symudol/dyfeisiau yn ddiogel. Peidiwch â gweld, storio na rhannu deunydd sy'n cynnwys delweddau personol o ddysgwr heb ymgynghori â'r DSL

Bydd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar system School Edukey gan fanylu ar:

Math o fwlio; Corfforol Llafar Emosiynol anuniongyrchol etc

Perthynol i ragfarn; sail rhagfarn; hil crefydd statws cymdeithasol

Casineb anabledd hil crefydd rhyw

Manylion y troseddwr/wyr honedig dioddefwr lleoliad amser

Cysylltiadau â digwyddiadau blaenorol

Gweithredu / ymyrraeth

Hysbyswyd y rhieni

Deunyddiau ar-lein

Argymell newidiadau i ddulliau, polisïau neu weithdrefnau

**The Designated Team members for Anti-bullying are Catrin Evans and Gareth Evans**

**The Governor with oversight of this policy is: Manon George (Cadeirydd y Llywodraethwyr)**

**Llofnodion**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr Manon George**

**Pennaeth Catrin Evans**

**Cyhoeddwyd Mehefin 24**

**Adolygwyd Mehefin 25**